**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru)

[DRAFFT]

## CYNNWYS


*Isafbris alcohol*

1 Isafbris alcohol

*Troseddau*

2 Troseddau
3 Ystyr cyflenwi alcohol a mangre gymhwysol
4 Ystyr manwerthwr alcohol
5 Cyflenwi alcohol a nwyddau a gwasanaethau eraill am un pris

*Cosbau*

6 Cosbau
7 Cosbau penodedig

*Gorfodi*

8 Camau gorfodi gan awdurdodau lleol
9 Swyddogion awdurdodedig
10 Pŵer i wneud pryniannau prawf
11 Pwerau mynediad
12 Gwarant i fynd i mewn i annedd
13 Gwarant i fynd i mewn i fangreoedd eraill
14 Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad
15 Pwerau arolygu, etc.
16 Rhwystro etc. swyddogion

*Amrywiol*

17 Diwygio Deddf Trwyddedu 2003

*Cyffredinol*

18 Troseddau gan gyrff corfforaethol etc.
19 Troseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig eraill
20 Rheoliadau
21 Dehongli
22 Dod i rym
23 Enw byr

Yr Atodlen — Cosbau Penodedig

(3) Mewn perthynas â chyflenwi alcohol o fangre sy'n fangre gymhwysol yn rhinwedd adran 3(2)(c), mae'r unigolyn sy'n ddefnyddiwr y fangre at ddibenion Rhan 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (p.17) i gael ei drin fel manwerthwr alcohol at ddibenion y Ddeddf hon.

**5 Cyflenwi alcohol a nwyddau a gwasanaethau eraill am un pris**

(1) Pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi ynghyd â nwyddau ac eithrio alcohol, neu wasanaethau, am un pris—

(a) os, oni bai am yr is-adran hon, byddai'r alcohol a gyflenwir yn cael ei drin fel pe bai'n fwy nag un dogn, mae i gael ei drin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai'n un dogn;

(b) mae'r alcohol i gael ei drin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai'n cael ei gyflenwi am yr un pris hwnnw.

(2) Pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi am bris a bennir drwy gyfeirio at gyflenwi nwyddau ac eithrio alcohol, neu wasanaethau ("pris penodedig")—

(a) os, oni bai am yr is-adran hon, byddai'r alcohol a gyflenwir yn cael ei drin fel pe bai'n fwy nag un dogn, mae i gael ei drin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai'n un dogn;

(b) mae'r alcohol i gael ei drin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai'n cael ei gyflenwi am bris sy'n hafal i gyfanswm y pris penodedig a'r pris (os oes un) y cyflenwir y nwyddau a'r gwasanaethau eraill amdano.

(3) Pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi mewn trafodyn alcohol cyfansawdd, at ddibenion y Ddeddf hon—

(a) mae cyfanswm yr holl alcohol a gyflenwir yn y trafodyn hwnnw i gael ei drin fel dogn o alcohol, a

(b) mae'r pris y cyflenwir cyfanswm yr holl alcohol a gyflenwir yn y trafodyn hwnnw amdano i gael ei drin fel ei bris gwerthu.

(4) Cyflenwir alcohol mewn trafodyn alcohol cyfansawdd, at ddibenion yr adran hon—

(a) os y'i cyflenwir yn rhad ac am ddim drwy gyfeirio at gyflenwi alcohol, neu os cyflenwir alcohol arall yn rhad ac am ddim drwy gyfeirio at ei gyflenwi,

(b) os y'i cyflenwir am bris a bennir drwy gyfeirio at gyflenwi alcohol arall, neu os cyflenwir alcohol arall am bris a bennir drwy gyfeirio at ei gyflenwi, neu

(c) os y'i cyflenwir, ynghyd ag alcohol arall, am bris penodedig.

(5) Mae'r cyfeiriadau yn is-adrannau (1) a (2) at gyflenwi alcohol ynghyd â nwyddau a gwasanaethau eraill am un pris yn cynnwys cyfeiriadau at drafodion pan fo alcohol yn cael ei ddarparu ynghyd â nwyddau a gwasanaethau eraill, a—

(a) bod y nwyddau neu'r gwasanaethau eraill yn cael eu cyflenwi am bris, ond

(b) bod yr alcohol yn cael ei ddisgrifio fel alcohol sy'n cael ei gyflenwi yn rhad ac am ddim.

